# Atebion a roddwyd

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

3 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## *Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa amcangyfrifon a wnaethpwyd ynghylch cyfanswm cost cynllun gliniaduron am ddim i ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru petai'n cael ei roi ar waith a'i gyflwyno ledled Cymru (WAQ54687)

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** Pa asesiad a wnaethpwyd o gynllun gliniaduron am ddim i ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAQ54688)

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: Faint mae cynllun peilot gliniaduron am ddim i ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i gostio hyd yn hyn (WAQ54689)

**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**: Faint mae disgwyl i gynllun peilot gliniaduron am ddim i ysgolion Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gostio erbyn iddo ddod i ben (WAQ54690)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Awst 2009***

Ymrwymiad Cymru'n Un yw "Byddwn yn dechrau cynllun peilot ar gyfer gliniaduron i blant" ac, ar hyn o bryd, rydym wrthi'n ystyried pa fathau o gynllun peilot a fyddai o'r budd mwyaf i blant ac a fyddai'n sicrhau'r gwerth mwyaf am arian. Felly nid aed i unrhyw gostau hyd yn hyn ond disgwyliaf i'r prosiect gychwyn yn nhymor yr Hydref 2009. Nid wyf yn disgwyl rhagnodi un dull i ysgolion ei ddilyn.

Caiff y ffordd ymlaen ac amcangyfrifon o gostau ar gyfer y dyfodol eu pennu yng ngoleuni canfyddiadau'r cynllun peilot a'r adnoddau a fydd ar gael.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod y Dyfarniadau Gwyddoniaeth Triphlyg, yn hytrach na'r Dyfarniadau Gwyddoniaeth Dwbl, yn aros ar y cwricwlwm ledled Cymru (WAQ54708)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Awst 2009***

Credaf fod gwyddoniaeth yn agwedd bwysig ar addysg pob dysgwr ac rwy'n awyddus i hyrwyddo'r pwnc a'i lwyddiant, sydd mor hanfodol i'r economi yng Nghymru. Rwy'n falch o weld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n astudio'r gwyddorau ar wahân ar gyfer TGAU mewn Ffiseg, Cemeg a Bioleg eto eleni, a chyfraddau eithriadol o uchel yn llwyddo ynddynt. Bu gwelliant hefyd yn y gyfran o raddau uchaf a ddyfarnwyd yn y pynciau 'STEM' pwysig hyn.

Mae'r canlyniadau hyn yn y tri phwnc gwyddoniaeth ar wahân yn galonogol. Cydnabyddaf hefyd bwysigrwydd ennyn diddordeb pob dysgwr mewn gwyddoniaeth ac felly'r angen am lwybrau dysgu ysgogol i bawb yn yr ystod oedran 14 - 19. Mae'r pynciau gwyddoniaeth ('triphlyg') ar wahân yn cynnig un llwybr a fydd yn addas i lawer o ddysgwyr. Efallai y bydd dyfarniad gwyddoniaeth dwbl neu sengl yn fwy priodol i eraill. Gan ein hysgolion mae'r penderfyniadau ar sut y cyflwynir gwyddoniaeth a pha bynciau a gyflwynir. Byddant yn gwneud y penderfyniadau hyn gan ystyried anghenion a buddiannau gorau'r dysgwyr dan sylw.

At hynny, mae mwy o gyfleoedd nawr i astudio cyrsiau Gwyddoniaeth a Pheirianneg i safon TGAU a TAU yn ogystal â thrwy amrywiaeth o opsiynau galwedigaethol gan gynnwys prentisiaid modern. Mae gan bob un o'r opsiynau hyn eu rôl mewn darparu llwybrau ysgogol a pherthnasol 14-19.

## *Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi arweiniad newydd i awdurdodau lleol ynghylch cyfyngiadau cyflymder yng Nghymru (WAQ54684)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Awst 2009***

Gobeithiwn allu cyhoeddi canllawiau newydd ar derfyn cyflymder ar gyfer Cymru yn ystod hydref eleni.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw amcangyfrifon o faint y bydd y gwaith adferol i'r A499 newydd yn ei gostio yng ngoleuni craciau diweddar yn wyneb y ffordd (WAQ54685)

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: Pryd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl y bydd y cynllun ffordd A499 newydd yn cael ei gwblhau o'r diwedd (WAQ54686)

***Rhoddwyd ateb ar 27 Awst 2009***

Nid oes gennym amcangyfrif o gostau unrhyw waith unioni ar y cam hwn. Y contractwr fydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw waith unioni. Caiff y cynllun ei gwblhau yn ystod gaeaf 2009.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gost debygol parhau i roi cymhorthdal i'r llwybr hedfan rhwng Caerdydd ac Ynys Môn dros y deng mlynedd nesaf (WAQ54713)

***Cyfieithiad heb ei ddarparu eto - Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2009***
Officials continually monitor costs associated with the Intra Wales Air Service as part of routine contract management procedures. Costs going forward will be taken into account as part of future contract negotiations within the context of budget decisions.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion faint o swyddogion yn ei adran sydd ag arbenigedd proffesiynol blaenorol yn y diwydiant rheilffordd (WAQ54714)

***Cyfieithiad heb ei ddarparu eto - Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***
We do not currently have a recording facility on our HR systems which would provide this information.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ba bwerau ychwanegol y gellid eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt seilwaith rheilffyrdd a theithio ar reilffyrdd. (WAQ54715)

***Cyfieithiad heb ei ddarparu eto - Rhoddwyd ateb ar 27 Awst 2009***
I have not undertaken any formal assessment of further devolution on rail. I meet regularly with Lord Adonis, the Secretary of State for Transport, and senior management at Network Rail, to ensure that the needs and interests of Wales are taken fully into account on non-devolved matters, including, for example, the recently announced electrifciation programme.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog roi manylion sawl milltir o ffyrdd sy'n berchen i Lywodraeth Cynulliad Cymru neu a weithredir ganddi a fydd dan gyfyngiadau cyflymder oherwydd gwaith ffordd rhwng dydd Gwener 29ain a dydd Llun 31ain Awst (WAQ54716)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Awst 2009***

Roedd cyfyngiadau cyflymder oherwydd gwaith ffordd ar tua 10.5 milltir o ffyrdd sy'n eiddo i Lywodraeth y Cynulliad neu a weithredir ganddi rhwng dydd Gwener 28ain a dydd Llun 31ain Awst. Defnyddiwyd oriau gwaith y tu allan i oriau brig, cyn belled ag yr oedd yn ymarferol, er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr ffyrdd.

## *Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo diogelwch y cyhoedd ar hawliau tramwy ar dir amaeth. (WAQ54701)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae'r Cod Cefn Gwlad, a ailgyhoeddwyd yng Nghymru yn 2004/5 gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, yn cynnwys adran a anelir at ffermwyr a rheolwyr tir eraill. Mae hyn yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am eu hawliau a'u cyfrifoldebau o ran caniatáu mynediad i'r cyhoedd ar eu tir, gan gynnwys y broses o reoli risgiau cysylltiedig. Yn ogystal â hyn, yn 2006 ailgyflwynodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei ganllaw "Cattle and Public Access in England and Wales" gan ddarparu gwybodaeth am faterion cyfreithiol perthnasol a rhagofalon y gellir eu cymryd i leihau'r risg o niwed i'r cyhoedd.

Mae fy swyddogion hefyd wrthi'n paratoi canllaw, yn bennaf ar gyfer awdurdodau lleol, ar amrywiaeth o faterion hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru. Yng ngoleuni digwyddiadau diweddar yn ymwneud â gwartheg a cherddwyr yng nghefn gwlad, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod y canllaw hwn yn amlygu pwyntiau allweddol perthnasol, gan gynnwys cyfrifoldebau perchenogion tir a'r cyhoedd o ran cael mynediad i dir fferm lle y ceir gwartheg.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddefnyddio systemau compostio mewn cynhwysyddion yng Nghymru. (WAQ54702)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae compostio caeedig yn ffordd hirsefydlog o drin gwastraff bwyd wedi'i wahanu yn y tarddle o'r ffrydiau gwastraff trefol, masnachol a diwydiannol. Mae'r broses o ddatblygu gallu compostio caeedig wedi'i chefnogi gan Lywodraeth y Cynulliad, gydag arian wedi'i ddyrannu'n flaenorol i gynorthwyo'r broses o ddatblygu cynlluniau yn Ystrad Mynach (Caerffili), Y Bont-faen (Bro Morgannwg) a Phenhesgyn (Ynys Môn), ynghyd â rhywfaint o brosiectau llai ar safleoedd y sector cyhoeddus. Roedd y dechnoleg yn gonglfaen Strategaeth Wastraff gyntaf Cymru 'Yn Gall gyda Gwastraff', a oedd yn cynnwys targedau penodol ar gyfer y broses o gompostio gwastraff trefol bioddiraddadwy ar wahân, neu ei dreulio'n anaerobig.

Ers hyn, mae compostio caeedig wedi'i ailarfarnu o gymharu â thechnolegau gwahanol. Mae'r arfarniad wedi pennu bod treulio anaerobig yn cynnig nifer o fanteision dros gompostio caeedig, gyda pherfformiad amgylcheddol gwell o ganlyniad i'r broses o gynhyrchu bionwy i gymryd lle'r defnydd o danwydd ffosil, ac enillion hirdymor gwell ar fuddsoddiad oherwydd refeniw a gynhyrchir drwy ddefnyddio bionwy.

Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o dreulio anaerobig ar gyfer trin gwastraff bwyd trefol, masnachol a diwydiannol ar wahân, er ei fod yn cydnabod bod gan gompostio caeedig rôl i'w chwarae o hyd, yn enwedig o ran trin tunelli llai o fwyd cymysg a gwastraff gwyrdd mewn gosodiadau lleol.

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch y newid arfaethedig yn y Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir i gael gwared ar y tymor caeedig ar gyfer genweirio am frithyll brown ac eogiaid mewn llynnoedd (WAQ54703) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig.***

***Rhoddwyd ateb ar 01 Medi 2009***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Nid wyf wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU ynghylch y mater hwn, ac ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau i mi gan Lywodraeth y DU na rhanddeiliaid eraill. Bwriad darpariaeth benodol y Mesur yn ôl yr hyn a ddeallaf, yw cywiro anghysondeb yn y ddeddfwriaeth bresennol - sef anelu at ddileu tymor caeedig ar gyfer rhywogaethau megis brithyll brown ac Eog a gedwir mewn dyfroedd llonydd. Mae'r rhywogaethau hyn yn fudol o ran eu natur, a phan y'u cedwir mewn llynnoedd ni allant silio, felly ni fyddai unrhyw ddarpariaeth wedi'i hanelu at ddiogelu'r rhywogaethau hyn yn ystod y rhan honno o gylch eu bywyd yn angenrheidiol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad anffurfiol ar gyflwyno is-ddeddfau, a fyddai'n dileu'r tymor caeedig pe caiff y Mesur Morol ei weithredu â'r ddarpariaeth hon.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Faint mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi'i wario ar ymgynghorwyr ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf, pa ymgynghorwyr a ddefnyddiwyd ac at ba ddiben y defnyddiwyd eu gwasanaethau (WAQ54697)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Nodir y wybodaeth y gofynnwyd amdani isod:

| £'m | **05/06** | **06/07** | **07/08** | **08/09** | **09/10<br>4 mis** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes y Gwaith** | | | | | |
| Cynlluniau Atal Llifogydd<br><br>**Prif Gontractwyr :** Atkins Ltd<br>Capita Symonds Ltd<br>Carillion JM Ltd<br>EC Harris LLP<br>Halcrow Group Ltd<br>Jeremy Benn Associates Ltd<br>Ove Arup & Partners Ltd<br><br>**Maes y Gwaith** | 5.9 | 4.3 | 3.7 | 3.3 | 0.5 |
| Diogelu'r Amgylchedd | 0.3 | 0.9 | 0.8 | 0.7 | 0.1 |
| Pysgodfeydd, hamdden a chadwraeth | 0.3 | 0.2 | 0.4 | 0.3 | 0.1 |
| Adnoddau Dŵr | 0.4 | 0.3 | 0.4 | 0.3 | 0.1 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **6.9** | **5.7** | **5.3** | **4.6** | **0.8** |

Mae gwaith ar gynlluniau atal llifogydd yn cynrychioli 76% o gyfanswm costau ymgynghorwyr a gyflogir gan yr Asiantaeth, a'r ymgynghorwyr a enwir uchod oedd y rhai hynny a gafodd fwy na £510,000 am y gwaith hwn. Roedd ymgynghorwyr eraill a gymrodd ran yn ymwneud â darnau bach o waith gyda chontractau bach unigol, a byddai'n anghymesur i Asiantaeth yr Amgylchedd ddarparu gwybodaeth am ymgynghorwyr penodol ar gyfer y meysydd gwaith hyn.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog restru beth yw gwerth ardrethol, fesul megawat capasiti cynhyrchu, ffermydd gwynt (a) ar y tir a (b) ar y môr (i) yn 2009-10 a (ii) a ddisgwylir yn 2010-11 yn ôl enw a lleoliad y Fferm Wynt. (WAQ54695) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.***

***Rhoddwyd ateb ar 9 Medi 2009***

**Y Gweinidog dros yr Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyfrifoldeb dros brisio heraditamentau a llunio'r rhestrau ardrethi annomestig. Mae disgwyl i restrau 2010 gael eu cyhoeddi ar 30 Medi 2010. Dylid anfon ymholiadau ynghylch gwerth heraditamentau unigol, gan gynnwys y fethodoleg a ddefnyddir i amcangyfrif eu gwerth ardrethol, at Asiantaeth y Swyddfa Brisio.

## *Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** Beth yw'r amseroedd aros ar hyn o bryd ar gyfer profion ceg y groth a'r canlyniadau yng Nghymru a pha gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau'r amseroedd hyn (WAQ54704)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Yn ddiweddar, cafwyd cynnydd anferth yn nifer y merched sy'n mynd am brofion ceg y groth. Mae rhai labordai wedi gweld dwbl y profion yn cael eu sgrinio. Er mwyn rheoli'r galw hwn nas gwelwyd erioed o'r blaen, mae adnoddau ychwanegol wedi'u rhoi i labordai yng Nghymru ac mae llwythi o waith yn cael eu symud i'w sgrinio mewn labordai sy'n gallu darparu capasiti ychwanegol ar fyr rybudd.

Mae rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru yn gweithredu i'r amseroedd aros safonol ar gyfer canlyniadau profion ceg y groth sef 80% o fewn pedair wythnos a 100% o fewn chwe wythnos.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyflwyno canlyniadau adolygiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i wasanaethau cadeiriau olwyn (WAQ54705)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Rwyf wedi cael adroddiad cyntaf y grŵp llywio ac rwyf wrthi'n ei ystyried.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Faint o arian sydd wedi cael ei wario ar wasanaethau i blant anabl yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999 (WAQ54706)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Nid yw'n bosibl nodi gwariant gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r GIG ar wasanaethau i blant anabl yng Nghymru ar wahân.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa rwymedigaethau sydd ar y GIG i ddarparu mynediad at ddeintyddion GIG ar gyfer pob claf yng Nghymru (WAQ54707)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae gofyn i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddarparu gwasanaethau deintyddol sylfaenol yn ei ardal, neu sicrhau y cânt eu darparu yn yr ardal, i'r graddau y mae'n ystyried yn angenrheidiol i fodloni pob gofyniad rhesymol.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog egluro'r gostyngiad yng ngwariant y sector preifat yn y GIG rhwng 2007/08 a 2008/09 a pha gostau a gafodd y GIG wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yn uniongyrchol? (WAQ54709)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Nid yw'r Cynulliad yn casglu'r wybodaeth hon.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro'r cynnydd o £70 miliwn yng ngwariant y BILlau ar ofal parhaus yn y cyfrifon diweddaraf ar gyfer y GIG yng Nghymru a pha amcanestyniadau o wariant o'r fath y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ar gyfer y ddwy flynedd ariannol nesaf (WAQ54710)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae dros hanner y cynnydd yn ymwneud ag arian strategol a ddarparwyd i gynorthwyo cynigion arloesol mewn perthynas â gweithio ar y cyd a datblygu gwasanaethau. Priodolir y balans i gynnydd mewn achosion ac yn fwy penodol i achosion costau uwch mewn Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.
Mae ffigurau BILl yn awgrymu cynnydd pellach mewn gwariant o £50m yn 09/10.

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd y rhaglen Urddas mewn Gofal yn gwella gofal pobl hŷn mewn ysbytai (WAQ54712)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae ein rhaglen urddas mewn gofal tair blynedd sy'n cael ei gweithredu ledled Cymru wedi canolbwyntio i ddechrau ar wella urddas a pharch i bobl hŷn mewn ysbytai o ran cyfathrebu, mynd i'r toiled a bwydo a maeth. Mae hyfforddiant o ran urddas ar gyfer staff y GIG a datblygu cynlluniau gweithredu urddas mewn gofal lleol gan Ymddiriedolaethau eisoes wedi cael ei ddatblygu ac mae amrywiaeth o brosiectau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru wrthi'n cael eu sefydlu gyda chyngor gan ein Grŵp Gorchwyl Cenedlaethol.

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl asesiad a gwblhawyd gan bob awdurdod lleol yng Nghymru yn 2007/08 yn unol â Chyfarwyddyd Cynllunio Rhyddhau o Ysbyty Llywodraeth Cynulliad Cymru (WAQ54691)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** Pa gyfran o'r gyllideb Iechyd, wedi'i dangos ar ffurf canran ac mewn ffigurau, sydd wedi'i neilltuo ymhob un o'r pum mlynedd diwethaf (WAQ54692)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae canran y gyllideb Iechyd a ddyrannwyd i Fyrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru sydd wedi'i neilltuo yn y bum mlynedd ddiwethaf fel a ganlyn:

| | **Cyfanswm Dyraniad Refeniw BILl/ CIC** | **Elfen Wedi'i Neilltuo** | **%** |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | |
| 2005-06 | 3827.963 | 360.317 | 9.4 |
| 2006-07 | 4214.584 | 368.382 | 8.7 |
| 2007-08 | 4564.627 | 367.71 | 8.1 |
| 2008-09 | 4767.605 | 972.957 | 20.4 |
| 2009-10 | 4925.268 | 1016.871 | 20.6 |

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gryfhau hawliau neiniau a theidiau y mae eu hwyrion yn eu gofal neu wedi bod yn eu gofal (WAQ54711)

***Rhoddwyd ateb ar 28 Awst 2009***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Mae neiniau a theidiau'n gwneud cyfraniad arwyddocaol yn natblygiad lles plant, yn enwedig pan ymgymerant â rôl y prif rieni. Yng Nghymru mae tua 20% (700) o leoliadau maeth gyda theulu neu ffrindiau, a chyfran uchel o'r rhain yn neiniau a theidiau.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar welliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cefnogaeth i deulu a ffrindiau sy'n ofalwyr. Yn benodol:-

- rhoi blaenoriaeth i leoli gyda theulu estynedig neu ffrindiau, lle y bo'n briodol;

- cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cymeradwyo gofalwyr maeth sy'n aelodau o'r teulu a lwfansau cynhaliaeth newydd.

O 1 Medi 2009 bydd deddfwriaeth newydd yng Nghymru a Lloegr yn lleihau'r cyfnod cymhwyso i berthnasau wneud cais am orchmynion preswylio neu orchmynion gwarcheidiaeth arbennig o dair blynedd i flwyddyn.

## *Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig*

**Brynle Williams (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o sut mae gwariant refeniw yn 2009/10 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes (WAQ54693)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Medi 2009***

Y gyllideb ar gyfer 2009/10 yw £1m. Dyrannwyd £707,550 i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn darparu gwasanaeth gofynnol a £198,485 pellach ar gyfer gwaith prosiect arbennig. Cadwyd y £93,965 sy'n weddill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mentrau Cymru gyfan gan gynnwys gweithgareddau a hyfforddiant addysgol.

**Brynle Williams (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o sut mae gwariant yn 2009/10 wedi cael ei ddyrannu ar gyfer llinellau gwariant cyllideb Cyfalaf Rheoli’r Amgylchedd a Chyfalaf Amgylchedd Cynaliadwy, gan roi’r ffigurau ar gyfer pob un ar wahân (WAQ54694)

***Rhoddwyd ateb ar 01 Medi 2009***

Mae Cyfalaf Rheoli'r Amgylchedd (£38,000) i gyd wedi ei ddyrannu i dalu costau cynnal a chadw a gwelliannau i stâd fferm Pwllperian.

Mae cyllideb y Cyfalaf Amgylchedd Cynaliadwy (£1.524m) yn cwmpasu elfen gyfalaf y cynlluniau Pysgodfeydd, gan gynnwys arian cyfatebol Cronfa Pysgodfeydd Ewrop. Mae Rheoli a Gorfodi Pysgodfeydd yn ganolog i'r cynlluniau hyn a'u diben yw:

- Cadw a chreu cyfleoedd cyflogaeth o fewn y diwydiant pysgota yng Nghymru drwy wneud y gorau o'r posibiliadau presennol a thrwy chwilio am gyfleoedd newydd.
- Hyrwyddo buddsoddi mewn dyframaethu, yn arbennig ar gyfer prosiectau rhywogaethau o bysgod môr.
- Annog prosiectau o'r sector prosesu pysgod sy'n ychwanegu gwerth at bysgod môr a dyframaethu.
- Hyrwyddo buddsoddi ar gyfer gwella cyfleusterau porthladdoedd.

Dyrennir yr £1.524m i'r elfennau amrywiol hyn fel y bo gofyn.

## *Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog restru’r Awdurdodau Lleol hynny sydd â diffyg yn eu cyfrif refeniw tai, gan roi’r ffigurau ar gyfer pob un (WAQ54696)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Rwyf wedi ymgynghori â'r swyddogion Tai sy'n fy hysbysu nad ydynt yn cadw'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon ar gael o gyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio awdurdodau lleol unigol.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu’r Gwasanaeth Cyfraith Anabledd yng Nghymru (WAQ54698)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae'r Gwasanaeth Cyfraith Anabledd (DLS) wedi darparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel i bobl anabl a Byddar am dros 30 o flynyddoedd. Caiff ei gynnal gan bobl anabl i bobl anabl fel elusen gofrestredig annibynnol a chenedlaethol. Mae'r DLS yn darparu cyngor a gwybodaeth yn y chwe maes isod o'r gyfraith:

- Gwahaniaethu ar sail Anabledd
- Defnyddwyr
- Gofal Cymunedol
- Addysg Bellach ac Addysg Uwch

- o Cyflogaeth
- o Budd-daliadau lles

Ar gyfer y meysydd hyn o'r gyfraith mae DLS hefyd yn darparu gwasanaeth gwaith achos, a chymorth ar unrhyw lefel o'r system gyfreithiol. Fodd bynnag, mae gallu DLS i gynrychioli cleientiaid mewn tribiwnlysoedd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i fwrdeistrefi Llundain ac ar achlysuron i'r siroedd o amgylch Llundain.

Fel rhan o Gynllun Strategol DLS 2008-2011, gwnaethant ddechrau'r prosiect 'Reach Out', er mwyn ceisio datblygu presenoldeb DLS yng Nghymru, a rhanbarthau Lloegr. Mae'r prosiect wedi cael cyllid grant am dair blynedd gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol*. Dylid cael adroddiad gan Swyddog Datblygu Cymru ar ddechrau 2010.

* Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn rhwydwaith o sefydliadau sy'n ariannu, yn darparu ac yn hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol sifil o wybodaeth gyffredinol i gyngor a chynrychiolaeth. Mae Cyllideb Grant y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn caniatáu i Gomisiwn y Gwasanaeth Cyfreithiol ystyried cynigion ariannu ad hoc gan amrywiaeth o sefydliadau. Gallent ddyrannu arian i brosiectau a gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn darparu cyngor uniongyrchol i gleientiaid cymwys yn unig.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith monitro Llywodraeth Cynulliad Cymru yng nghyswllt gweithredu’r Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido’r Trydydd Sector (WAQ54699)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer ariannu'r Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol) yn pennu'r egwyddorion allweddol sy'n tanategu arian Llywodraeth y Cynulliad i'r Trydydd Sector a'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei ddisgwyl yn ôl.
Mae egwyddorion y Cod Ymarfer yn orfodol i bob adran yn Llywodraeth y Cynulliad, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, cyrff y GIG ac arianwyr trydydd parti eraill.
Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal ymarfer monitro ar gydymffurfio â Chynllun y Trydydd Sector (Sector Gwirfoddol) a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector. Caiff is-bwyllgor Ariannu a Chydymffurfio Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector eu hysbysu o unrhyw achos o dorri'r Cod.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Faint oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’i wario yn 2007/2008 ar brosesu a dyrannu cyllid grant i’r trydydd sector (WAQ54700)

***Rhoddwyd ateb ar 26 Awst 2009***

Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog.